**Cyfarfod: Y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Trwy gyfrwng Teams**
**Dyddiad: 22 Hydref 2025**
10am i 12.15pm

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>David Macgregor (DM)<br>Ms Julie James (JJ)<br>Ms Caroline Wheeler (CW) |
| **Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio** | Mr Ifan Charles, Prif Gwnstabl (IC)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (ND)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Mr Richard Janas, Arolygydd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi (RJ)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes SCHTh (NE)<br>Mr Lewis Simpson, Swyddog Staff (LS) |
| **Ymddiheuriadau** | Mr Farhan Shakoor (FS)<br>Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Ms Linda Williams, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (LW)<br>Ms Aneesa Ali, Archwilio Cymru (AA) |
| **Datganiadau o fuddiant:** | Dim |

## 1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2025

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir y pwyllgor.

## 2. Adolygiad o Gamau Gweithredu Heb eu Cyflawni

Nododd yr aelodau fod nifer o gamau gweithredu yr oedd angen eu diweddaru:

Cam gweithredu A7 – nododd a chytunodd yr aelodau y dylid diweddaru'r cam gweithredu hwn mewn perthynas ag adolygiad archwilio Storio Data TGCh i adlewyrchu'r ffaith na rannwyd yr adroddiad ag aelodau ymlaen llaw. Roedd hyn oherwydd y bu oedi cyn cael yr adroddiad terfynol ac nad oedd digon o amser i'w rannu ag aelodau cyn y cyfarfod.

Cam Gweithredu A 10 – Nododd yr aelodau nad oedd y cam gweithredu mewn perthynas â'r Cylch Cynllunio a Sicrwydd yn rhan o'r agenda hon a gwnaethant gytuno y dylid darparu diweddariad yn y Seminar Cyllid a gynhelir ym mis Tachwedd 2025.

Cam Gweithredu A 11 – Nododd yr aelodau fod angen diwygio'r cam gweithredu mewn perthynas â chael y cyflwyniad ynghylch seiberddiogelwch yng nghyfarfod y pwyllgor a gynhelir ym mis Rhagfyr 2025 a dylid ei symud ymlaen i'r cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2026. Cytunwyd ar hyn oherwydd y gofyniad i ystyried y datganiad o gyfrifon yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**Cam Gweithredu A 12 - Bod Cam Gweithredu A 7 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith na chafodd yr adroddiad drafft diwygiedig ei rannu â'r aelodau cyn ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 22 Hydref.**

**Cam Gweithredu A 13 - Bod Cam Gweithredu A 10 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu bod diweddariad ynghylch y Cylch Cynllunio a Sicrwydd yn cael ei ddarparu yn y Seminar Cyllid a gynhelir ym mis Tachwedd 2025.**

**Cam Gweithredu A 14 - Aildrefnu'r cyflwyniad seiberddiogelwch o gyfarfod mis Rhagfyr i ddyddiad diweddarach oherwydd yr angen i ystyried datganiad o gyfrifon 2024/2025 yng nghyfarfod mis Rhagfyr.**

## 3. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Darparwyd cynllun gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio er gwybodaeth i'r aelodau. Nododd yr aelodau'r diwygiad bod datganiad o gyfrifon 2024/2025 wedi symud i gyfarfod mis Rhagfyr.

Dywedodd EH wrth y pwyllgor fod sawl mater wedi codi fel rhan o'r archwiliad, sydd wedi golygu bod angen gwneud gwaith pellach cyn cymeradwyo. Gofynnodd yr aelodau i wybodaeth am lefel yr addasiadau i'r cyfrifon drafft i gael ei dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod er mwyn rhoi amser iddynt ystyried effaith yr addasiadau a sut y byddant yn effeithio ar y cronfeydd wrth gefn.

**Cam Gweithredu A 15 - Bod ffigurau addasiad posibl datganiad o gyfrifon 2024/2025 yn cael eu dosbarthu i'r aelodau.**

4. **Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025 (Cyfarwyddwr Cyllid)**

Rhoddodd EH ddiweddariad o'r cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref. Rhoddwyd gwybod i aelodau fod trafodaethau ar y gweill ynghylch risgiau. Roedd TIAA yn darparu data drwy ddangosfwrdd ac roedd angen cyswllt rhwng argymhellion TIAA a'r bwrdd Dysgu'r Gwersi.

Dysgodd yr aelodau hefyd y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu cyn bo hir gydag IBM mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial ac y bydd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei wahodd i'r sesiwn hon.

Dywedodd y cadeirydd nad oedd cyfarfod o'r grŵp Llywodraethu Archwilio wedi bod ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor, a gofynnodd a oedd diweddariad. Dywedodd MR fod y cynllun archwilio mewnol ar y trywydd iawn. Nodwyd bod pedwar argymhelliad heb eu gweithredu ar hyn o bryd a oedd dros 12 mis, a chytunwyd bod angen cynllun gwaith gan arweinwyr yr argymhellion ynghylch y gwaith sydd ei angen ei wneud i symud yr argymhellion ymlaen. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni er bod yr adolygiadau cydweithredol yn fwy heriol, ond eu bod yn gweithio drwyddynt.

Dywedodd MR ymhellach fod gwaith wedi dechrau ar ddatblygu'r cynllun archwilio ar gyfer 2026/2027 a rhoddodd sicrwydd bod y gwaith hwn ar y trywydd iawn. Hefyd, gwnaeth JJ y pwyllgor yn ymwybodol o'r ffaith bod y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro yn cadw llygad ar yr argymhellion sy'n weddill ac yn sicrhau bod y byrddau perthnasol yn eu hystyried yn rheolaidd.

5. **Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:**

    a. **Ystyried yr Adroddiad Cryno ar Sicrwydd Rheolaethau Mewnol (SICA) 2024/2025**

Cyflwynodd JM adroddiad SICA i'r aelodau a dywedodd fod TIAA ar y trywydd iawn o ran cwblhau'r holl adolygiadau erbyn diwedd mis Chwefror. Daeth JM â Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 i sylw'r pwyllgor a sut mae hyn yn cysylltu â gwiriad iechyd twyll a gynhaliwyd gan TIAA.

Gofynnodd DM i'r pwyllgor gael gwell dealltwriaeth o'r agwedd twyll mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth a gofynnodd ymhellach a oedd angen i'r pwyllgor edrych yn fanylach ar y Ddeddf i sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Dywedodd JM, fel rhan o'r Ddeddf, eu bod bellach yn ofynnol i

gynnal asesiad o effaith twyll a byddai'n drosedd pe bai sefydliad yn methu â gwneud hynny. Cynghorwyd ymhellach y byddai hefyd yn drosedd pe na bai sefydliad yn gweithredu ar argymhelliad mewn perthynas â thwyll yn dilyn archwiliad mewnol.

Gofynnodd y pwyllgor am gael gweld polisi twyll yr heddlu er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin yn ddigonol â'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth a bod nodyn briffio yn cael ei ddarparu yn crynhoi gofynion newydd y ddeddfwriaeth.

**Cam Gweithredu A 16 - Bod y Polisi Twyll yn cwmpasu pob agwedd ar y newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud â thwyll a bod yr aelodau'n cael copi o'r polisi diweddaraf**

**b. Ystyried Adolygiad Dilynol Interim 2024/2025**

Cyflwynodd JM yr Adolygiad Dilynol Dros Dro i'r pwyllgor, ynghyd â'r naw argymhelliad sydd heb eu cyflawni. Mae pum argymhelliad wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny ac mae gan y rhai sy'n dal heb eu gweithredu ddyddiadau targed wedi'u diwygio.

Nododd y cadeirydd nad oedd sylwadau'r rheolwyr na'r rhesymau pam nad oedd y weithdrefn adnoddau dynol wedi'i diweddaru'n ddigonol. Cytunodd y pwyllgor â'r cadeirydd a nododd fod y dyddiad cwblhau bellach bron yn ddwy flynedd yn hwyrach na'r dyddiad targed gwreiddiol ac yn annerbyniol. Gofynnodd y pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran yr argymhellion sydd heb eu cyflawni. Cytunodd MR i ddilyn trywydd hyn ond nododd fod hyn wedi cael ei godi yn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a bod gofyniad i gael cynllun gwaith.

**Cam Gweithredu A 17 - Bod y rhesymau dros yr oedi wrth weithredu argymhellion adnoddau dynol a gynhwysir yn yr Adolygiad Dilynol Dros Dro yn cael eu rhannu ag aelodau.**

**c. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Storio Data TGCh**

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad diwygiedig o'r adolygiad sicrwydd o Storio Data TGCh a dywedwyd wrthynt fod geiriad y risgiau wedi'i ddiwygio i fod yn fwy cryno a pherthnasol i Heddlu Dyfed-Powys.

Nododd y pwyllgor y byddai'r argymhelliad yn yr adroddiad yn ymwneud â symud cynnwys y Gyriant W i Sharepoint yn dasg fawr a gofynnodd a oedd adnoddau ar gael i gyflawni'r argymhelliad hwn o fewn yr amserlenni. Dywedodd

GM fod yr argymhelliad hwn wedi bod yn destun cryn dipyn o drafodaeth yn fewnol a thrafodaethau â heddluoedd eraill ynghylch eu dull gweithredu. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae rheolwyr yn cael eu hannog i ystyried eu gyriannau W ac archifo hen wybodaeth i'w chadw, a chael gwared ar wybodaeth nad oes angen ei chadw. Y weithred gorfforol o symud yr wybodaeth o'r gyriant W i Sharepoint yw'r dasg hawsaf a rhan gymhleth y prosiect yw'r gwaith ymlaen llaw. Bydd Rheolwr Prosiect yn cael ei recriwtio ond ar hyn o bryd ni fydd unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael.

Gwnaeth yr aelodau nodi argymhelliad wyth sy'n ymwneud â hyfforddi a datblygu staff a gwnaethant ofyn am sicrwydd y bydd yr hyn a ddysgwyd o'r hyfforddiant yn cael ei ymgorffori yn niwylliant y sefydliad ar ôl iddo gael ei ddarparu. Nododd GM y byddai'n cael ei ymgorffori trwy ddatblygu dangosfyrddau ansawdd data sydd ar hyn o bryd yn y ciw gwaith gan yr Uned Gwella Gwasanaethau.

Tynnodd y cadeirydd sylw at argymhelliad pedwar ar ddeg yn ymwneud â storio data a chwestiynodd a oedd wedi'i ysgrifennu fel argymhelliad. Cadarnhaodd JM ei fod yn fwy o awgrym nag argymhelliad wrth edrych yn ôl. Dywedodd GM fod yr argymhelliad hwn wedi cael ei herio i geisio eglurder ynghylch pa storio data yr oedd hyn yn ymwneud ag ef a nododd fod angen storio data mewn gwahanol leoedd er gwydnwch.

Gofynnwyd i'r pwyllgor sut yr hoffent fonitro'r gwaith o roi yr argymhellion ar waith a chytunwyd y byddent yn cael eu monitro gan y bwrdd perthnasol.

**Cam Gweithredu A 18 - Bod gweithrediad yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Sicrwydd o TGCh – Storio Data yn cael eu monitro yn y bwrdd perthnasol a thrwy'r Grŵp Llywodraethu Archwilio.**

**d. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol – Diogelwch enillion a atafaelwyd o droseddau (arian parod ac asedau)**

Ystyriodd yr aelodau'r Adolygiad cydweithredol o ddiogelwch enillion a atafaelwyd o droseddau a dywedwyd wrthynt fod hyn wedi arwain at sicrwydd cyfyngedig o'r adolygiad o ran Heddlu Dyfed-Powys.

Nododd y pwyllgor ei fod yn siomedig o ddarllen canlyniad yr adolygiad ac roeddent yn pryderu ynghylch yr amserlenni ar gyfer enillion troseddau yn aros mewn cyfrifon banc cyn cael eu dyrannu i rywle arall ac yn teimlo ei fod wedi cael ei adael i lithro a bod enghraifft yn dangos ei bod wedi cymryd rhwng 10 a 12 mlynedd i gwblhau rhai trosglwyddiadau o falansau banc. Dywedodd JM, er bod y mater wedi'i raddio fel argymhelliad blaenoriaeth un, nad oedd yn rhywbeth y gellid ei ddatrys yn gyflym a byddai'n cymryd llawer o amser ac adnoddau i'w ddatrys. Rhoddodd JM enghraifft o heddlu gwahanol a wnaeth gynnydd, ond cymerodd dros flwyddyn i'w leihau.

Dywedodd MR wrth y pwyllgor fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud dros y 12 i 18 mis diwethaf ac er ei fod yn gwerthfawrogi nad yw'r holl falansau wedi'u clirio, mae rhestr wedi'i datblygu ac mae cymhennu wedi'i gwneud mewn perthynas â netio.

Awgrymodd DM fod angen adolygiad mwy rheolaidd rhwng Cyllid, yr Adran Ymchwilio i Droseddau, a'r Tîm Troseddau Economaidd i gefnogi gwelliannau. Cadarnhaodd MR fod hyn ar waith a bydd yn parhau wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Roedd yr aelodau'n rhwystredig am eu bod wedi canfod polisi wedi dyddio o 2020 yn yr adroddiad, ac roedd yn rhwystredig hefyd bod newidiadau deddfwriaethol wedi bod yn 2023 nad ydynt wedi'u hymgorffori. Awgrymodd yr aelodau, o ystyried yr hysbysiad a roddir i arweinwyr ar amseriadau adolygiadau, y dylai'r pwynt cyntaf fod i wirio a yw polisïau'n gyfredol ac yn gyfoes. Gofynnodd yr aelodau a yw'r polisi hwn ar y rhestr a phryd y caiff ei ddiweddaru.

O ystyried y ffigurau mewn perthynas â swm y symiau arian parod dan sylw, gofynnodd yr aelodau pam nad oedd hyn wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a hefyd a oedd yr yswiriant yn ddigonol i gwmpasu swm yr arian parod mewn sêff, gan ei fod yn £35,000 ar hyn o bryd. Cadarnhawyd, mewn perthynas ag atafaelu symiau mawr, y gellir cynyddu lefel yr yswiriant i gwmpasu hynny. Sicrhawyd yr aelodau nad oedd problem barhaus yn ymwneud ag arian parod mewn sêffs ac unwaith y bydd y gwaith fforensig wedi dod i ben caiff yr arian parod ei roi mewn banc.

**e. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o Daliadau Goramser a Lwfansau Ychwanegol**

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr adolygiad hwn wedi cael sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

**f. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth AD – Recriwtio a Hyfforddiant**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a dywedwyd wrthynt fod yr adolygiad wedi cael sicrwydd sylweddol. Roedd tri argymhelliad blaenoriaeth tri wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r Weithdrefn Recriwtio a Dethol a oedd angen ei hadolygu, yr ail oedd cynnwys holiaduron cyn ac ar ôl pob hyfforddiant, a'r trydydd argymhelliad oedd yn ymwneud â gweithredu dangosfwrdd Power BI.

Cwestiynodd y pwyllgor a oedd yn addas cael yr argymhelliad mewn perthynas â'r holiaduron hyfforddi, ac a oedd angen hyn ar bob cwrs hyfforddi. Awgrymodd

yr aelodau ymhellach nad yw'r rhan fwyaf o unigolion yn eu cwblhau. Byddai'r aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.

Mewn perthynas ag argymhelliad 3, cwestiynodd yr aelodau'r dyddiad targed o fis Ebrill 2027 a gofynnwyd am gadarnhad bod yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn yn llawn ac nad oedd y dyddiad wedi'i ddarparu felly na fyddai'n cael ei weithredu.

Gofynnodd yr aelodau i MR ymgynghori ag adnoddau dynol a'r Grŵp Llywodraethu Archwilio a sefydlu a yw'r argymhelliad wedi'i dderbyn yn llawn ac nad yw'r dyddiad targed yn ffordd o ddangos na fydd yn cael ei weithredu. Nododd JM nad yw TIAA yn dilyn trywydd argymhellion blaenoriaeth tri a dim ond pan gânt eu marcio fel rhai wedi'u gweithredu y byddant yn eu hystyried er mwyn sicrhau bod y gwaith gofynnol a nodwyd yn yr adolygiad wedi'i weithredu.

**Cam Gweithredu A 19 - Bod yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad recriwtio a hyfforddiant rheoli adnoddau dynol mewn perthynas ag iTrent, sydd â dyddiad cau o fis Ebrill 2027, yn cael ei wirio am berthnasedd ac o ran a fydd yn cael ei gyflawni.**

### g. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o'r Adran Ymchwilio i Droseddau – Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Ystyriodd yr aelodau'r adolygiad sicrwydd o'r Adran Ymchwilio i Droseddau – camfanteisio'n rhywiol ar blant ac roedd hwnnw wedi cael sicrwydd sylweddol. Cafodd yr adolygiad dri argymhelliad blaenoriaeth tri. Y cyntaf oedd mewn perthynas ag adolygu'r Polisi Cam-drin Plant a Diogelu Plant, yr ail oedd ychwanegu dyddiad, awdur, a dyddiad yr adolygiad nesaf at y siart llif yn ymwneud â rheoli camfanteisio troseddol ar blant/camfanteisio'n rhywiol ar blant, a'r argymhelliad olaf oedd ychwanegu dyddiad, awdur, a dyddiad at gylch gorchwyl cyfarfodydd wythnosol yr ardal blismona leol.

Nododd y pwyllgor fod diffyg cyfeiriad manwl yn yr adroddiad mewn perthynas â gweithio rhyngasiantaethol. Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch pwy sy'n mynychu cyfarfodydd yr ardal blismona leol. Cadarnhaodd JM mai gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn bennaf sy'n mynychu'r cyfarfodydd. Croesawodd y pwyllgor yr eglurhad bod gweithio rhyngasiantaethol wedi'i wreiddio'n ddigonol, a nododd TIAA y byddent yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n fanylach mewn adolygiadau yn y dyfodol.

### h. Ystyried yr Adolygiad Cydymffurfedd o Dreuliau a Thaliadau Ychwanegol

Ystyriodd yr aelodau'r adolygiad cydymffurfedd o dreuliau a thaliadau ychwanegol a gafodd sicrwydd sylweddol gyda dau argymhelliad. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn flaenoriaeth tri ac roedd yn nodi bod yr adroddiad treuliau ar gyfer 2024/2025 yn cael ei gyhoeddi ar wefan Heddlu Dyfed-Powys. Yr ail argymhelliad yw argymhelliad gweithredol mewn perthynas â gweithredu cymeradwywr amgen ar gyfer treuliau Prif Swyddog yn ystod absenoldeb y Swyddog Staff.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a gwnaethant nodi'r argymhellion.

## 6. Adroddiad Diweddaru Rheoli'r Trysorlys Canol Blwyddyn

Cafodd yr aelodau Adroddiad Diweddaru Rheoli'r Trysorlys Canol Blwyddyn sy'n tynnu sylw at y sefyllfa canol blwyddyn o ran gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r sefyllfa fenthyca a'r sefyllfa fuddsoddi.

Nododd y pwyllgor fod cadarnhad wedi bod yn y Grŵp Ystadau Strategol o lithriant mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf a bod y cynlluniau 'dal i fyny' i wario'r arian a ddyrannwyd yn ymddangos yn uchelgeisiol. Cytunodd y pwyllgor fod angen ffocws cryfach ar gynllunio.

Gwnaed cais i ystyried fformat tablau a lliw'r testun mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu darllen.

## 7. Ystyried y diweddariad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)

Ystyriodd yr aelodau adroddiad diweddaru mewn perthynas â HMICFRS.

Mae paratoadau ar gyfer yr Arolygiad Peel 2025 i 2027 ar y gweill gyda dyddiad swyddogol yr arolygiad ym mis Mai 2026. Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr arolygiad yn un parhaus yn ei hanfod a bod HMICFRS eisoes yn casglu gwybodaeth. Dywedodd RJ wrth y pwyllgor fod yr heddlu wedi cael gwybod y gallai gwelliannau neu argymhellion sy'n barhaus neu heb eu datrys, yn enwedig meysydd i'w gwella, effeithio ar raddau'r heddlu mewn perthynas â chwestiwn craidd penodol. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw feysydd i'w gwella sydd heb eu cyflawni yn cael eu cymeradwyo.
Cadarnhaodd RJ fod yr heddlu wedi cymeradwyo 15 o feysydd i'w gwella dros y deng mis diwethaf, bod naw ohonynt wedi'u cytuno gan HMICFRS, a bod y gweddill yn yr arfaeth yn dilyn adolygiad pellach gan HMICFRS. 17 yw cyfanswm presennol y meysydd i'w gwella sydd heb eu cyflawni er, fel y nodwyd, mae chwech yn aros am adolygiad gan HMICFRS.

Nododd yr aelodau yr adroddiad a chroesawu ei fformat a oedd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed, ac yn rhoi hyder i'r pwyllgor fod cynnydd yn cael ei wneud.

## 8. Cofrestr Risg yr Heddlu

Daeth yr adroddiad diweddaru diweddaraf mewn perthynas â chofrestr risg yr heddlu i law'r pwyllgor. Cynghorodd GM fod y broses o Gylch Cynllunio a Sicrwydd yn gwella'r ffordd y mae risgiau'n cael eu cydnabod. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y broses wedi tynnu sylw at feysydd nad ydynt efallai ar gofrestrau risg adrannol ar hyn o bryd.

Holodd yr aelodau am y risg mewn perthynas â cherbydau trydan a'r Mandad Allyriadau Sero a'r ffaith na fydd yr heddlu o bosibl yn bodloni'r rhwymedigaethau a osodwyd gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod pob cerbyd newydd yn gerbyd nad yw'n creu allyriadau erbyn 2035. Nododd yr aelodau na fyddai dyddiad targed o 2035 yn unol â'r broses rheoli risg gan y byddai'n golygu y byddai'r risg yn aros ar y gofrestr am gyfnod sylweddol o amser. Cytunodd GM i wirio'r risg a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor yn ddiweddarach.

Gwnaeth yr aelodau nodi risg GanBwyll a'r ffaith bod cyfarfod i'w gynnal ym mis Medi, a bwriad i israddio'r sgôr risg. Dywedodd EH fod y cyfarfod wedi mynd yn ei flaen ond ei fod yn rhan o gyfres o gyfarfodydd i gytuno ar strategaeth ar gyfer y dyfodol a hyd nes y cytunwyd ar hynny mae'r sgôr risg yn aros fel y mae.

Nododd y cadeirydd fod risg i'w hystyried ar gyfer y gofrestr yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd sydd ar ddod ym mis Mai a allai weld newid llywodraeth a allai gael effaith ar gyllid yn y dyfodol.

## 9. Cofrestr Risg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Daeth adroddiad diweddaru diweddaraf mewn perthynas â Chofrestr Risg Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i law'r aelodau. Dywedodd NE wrth y pwyllgor fod risg wedi'i dileu o'r gofrestr mewn perthynas â fformiwla cyllido'r heddlu. Mae'r risg wedi'i dileu o gofrestrau'r heddlu a'r SCHTh gan fod y risg wedi bod ar y gofrestr am gyfnod sylweddol o amser heb unrhyw eglurder gwirioneddol ynghylch a fyddai newidiadau i'r fformiwla. Cytunwyd, oherwydd hyd yr amser yr oedd y risg wedi bodoli ac oherwydd y ffaith nad oedd unrhyw effaith wedi bod hyd yn hyn, y gellid ei dileu nes bod cynnydd pellach yn cael ei wneud yn genedlaethol ar hyn.

Nododd NE fod y risg mewn perthynas ag asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yn parhau, a rhoddodd CM yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor fod y mater hwn wedi'i drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 21 Hydref a bod y Prif Gwnstabl wedi cymryd camau i ystyried a ddylid cynnwys hyn hefyd ar gofrestr risg gorfforaethol yr heddlu o ystyried yr effaith ar draws y ddau sefydliad.

Nododd yr aelodau eu bod yn falch bod y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn Aberystwyth wedi agor ond roeddent am egluro, er bod canolfan Abertawe wedi methu ei hachrediad, fod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer canolfan Aberystwyth. Dywedodd CM fod gan Gyfarwyddwr Comisiynu o fewn SCHTh gysylltiadau agos â'r prosiectau a'i fod yn goruchwylio'r gwersi sy'n cael eu dysgu a fydd yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor er mwyn roi sicrwydd.

**Cam Gweithredu A 20 - Mewn perthynas â'r risg sydd wedi'i chynnwys ar Gofrestr Risgiau Gorfforaethol SCHTh ar y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, mae papur briffio wedi'i baratoi i'r aelodau i dynnu sylw at sut y bydd gwersi'n cael eu dysgu o'r ffaith bod Canolfan Abertawe wedi methu ei hachrediad.**

## 10. Diweddariad ar weithgarwch twyll

Dywedodd NE nad oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

## 11. Diweddariadau aelodau

Dywedodd DM ei fod wedi mynychu cyfarfodydd misol y grŵp cyllid ac nad oedd ganddo unrhyw bryderon i'w codi yn ogystal â'r sylwadau a wnaed yn flaenorol ynghylch yr oedi o ran y datganiad o gyfrifon terfynol.

Rhoddodd CW ddiweddariad ar y bwrdd Newid a Thrawsnewid a chododd fater mewn perthynas â "Gofal Cywir Unigolyn Cywir" ac mae'n ymddangos bod diffyg adnoddau ar draws asiantaethau cymorth eraill a bod hyn o fewn cwmpas Llywodraeth Cymru. Yn dilyn presenoldeb yn y Bwrdd Fflyd, nododd CW fod Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa anodd o'i gymharu â heddluoedd eraill o ran cerbydau trydan, oherwydd y byddai daearyddiaeth yr ardal yn arwain at risgiau gweithredol pe bai angen fflyd hollol drydanol.

## 12. Unrhyw fater arall

Dywedwyd wrth yr aelodau, fel y soniwyd yn gynharach yn y cyfarfod, fod problem adnoddau o fewn TGCh a bod gan yr unigolyn sydd â'r dasg o ddatblygu mynediad i Microsoft Teams ar gyfer y pwyllgor ofynion sy'n cystadlu â'i gilydd ac, yn ystod y 12 wythnos diwethaf, bu'n gyfrifol am symud yr heddlu o Windows 10 i Windows 11. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei uwchgyfeirio gan

CM a ND ac rydym yn gobeithio gweld cynnydd dros yr wythnosau nesaf fel y gellir rhoi diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**25 Tachwedd 2025 – Seminar Cyllid 2025/2026**

**2 Rhagfyr 2025 – Cyd-bwyllgor Archwilio**

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD (22 Hydref 2025) | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A 12 | Bod Cam Gweithredu A 7 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith na chafodd yr adroddiad drafft diwygiedig ei rannu â'r aelodau cyn ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 22 Hydref. | NE | **Wedi'i gwblhau** – mae'r cam gweithredu wedi'i ddiwygio i adlewyrchu nad oedd yr adroddiad drafft diwygiedig wedi'i rannu ag aelodau ymlaen llaw. |
| A 13 | Bod Cam Gweithredu A 10 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu bod diweddariad ynghylch y Cylch Cynllunio a Sicrwydd yn cael ei ddarparu yn y Seminar Cyllid a gynhelir ym mis Tachwedd 2025. | NE | **Wedi'i gwblhau** – mae'r cam gweithredu wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu a diweddaru'r Cylch Cynllunio a Sicrwydd a darperir yn y Seminar Cyllid ym mis Tachwedd 2025. |
| A 14 | Aildrefnu'r cyflwyniad seiberddiogelwch o gyfarfod mis Rhagfyr i ddyddiad diweddarach oherwydd yr angen i ystyried datganiad o gyfrifon 2024/2025 yng nghyfarfod mis Rhagfyr. | NE | **Wedi'i gwblhau** – bydd hyn yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2026. |
| A 15 | Bod ffigurau addasiad posibl datganiad o gyfrifon 2024/2025 yn cael eu dosbarthu i'r aelodau. | MR | **Wedi'i gwblhau** – dosbarthwyd yr wybodaeth i'r aelodau ar 11 Tachwedd 2025. |
| A 16 | Bod y Polisi Twyll yn cwmpasu pob agwedd ar y newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud â thwyll a bod yr aelodau'n cael copi o'r polisi diweddaraf | GM | **Wedi'i gwblhau** – dosbarthwyd y polisi twyll a'r nodyn briffio cysylltiedig i'r aelodau ar 24 Hydref 2025. |
| A 17 | Bod y rhesymau dros yr oedi wrth weithredu argymhellion adnoddau dynol a gynhwysir yn yr Adolygiad Dilynol Dros Dro yn cael eu rhannu ag aelodau. | MR | **Wedi'i gwblhau** – gofynnwyd am gynllun prosiect gan Adnoddau Dynol ac fe'i trafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A 18 | Bod gweithrediad yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Sicrwydd o TGCh – Storio Data yn cael eu monitro yn y Bwrdd perthnasol a thrwy'r Grŵp Llywodraethu Archwilio. | MR | **Wedi'i gwblhau** – bydd y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth a'r grŵp Llywodraethu Archwilio yn monitro gweithrediad yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. |
| A 19 | Bod yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad recriwtio a hyfforddiant rheoli adnoddau dynol mewn perthynas ag iTrent, sydd â dyddiad cau o fis Ebrill 2027, yn cael ei wirio am berthnasedd ac o ran a fydd yn cael ei gyflawni. | MR | **Wedi'i gwblhau** – y cynllun yw i bob aelod o staff ar bob lefel gael mynediad at ddata gweithlu cyfredol drwy'r dangosfwrdd, a grëwyd drwy warws data i mewn i Power BI. Ar hyn o bryd dim ond i nifer gyfyngedig o unigolion sydd â mynediad i system iTrent y mae'r wybodaeth ar gael gan ei bod yn system gyfyngedig. Ebrill 2027 yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd gan fod nifer o faterion i'w cytuno arnynt yn gyntaf gan gynnwys cyllid ac adnoddau rheoli prosiectau. |
| A 20 | Cam Gweithredu A 20 - mewn perthynas â'r risg sydd wedi'i chynnwys ar Gofrestr Risgiau Gorfforaethol SCHTh ar y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, mae papur briffio wedi'i baratoi i'r aelodau i dynnu sylw at sut y bydd gwersi'n cael eu dysgu o'r ffaith bod Canolfan Abertawe wedi methu ei hachrediad. | NE | **Wedi'i gwblhau** – darparwyd nodyn briffio i'r aelodau ym mis Tachwedd 2025. |